# Y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth

## Adroddiad (SLC(3) 27-08)

**Dyddiad: 25 Tachwedd 2008**
**Amser : 8.15am**
**Lleoliad: Ystafell Bwyllgora 3, y Senedd**

### Cynnwys

Cyfarfu'r pwyllgor ar 25 Tachwedd 2008. Roedd yr Aelodau pwyllgor a ganlyn yn bresennol yn y cyfarfod: Dr Dai Lloyd AC, Eleanor Burnham AC, Mark Isherwood AC, Alun Davies AC, Joyce Watson AC.

### Mae adroddiadau'r pwyllgor i'r Cynulliad fel a ganlyn:

### Offerynnau na fydd y Cynulliad yn cael ei wahodd i roi sylw arbennig iddynt o dan Reol Sefydlog 15.2

### Offerynnau sy'n agored i gael eu dirymu yn unol â phenderfyniad gan y Cynulliad (y weithdrefn negyddol)

SLC218 - Gorchymyn Iechyd Planhigion (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2008

Y weithdrefn negyddol. Fe'i gwnaed ar 9 Tachwedd 2008. Fe'i gosodwyd ar 11 Tachwedd 2008. Yn dod i rym ar 10 Rhagfyr 2008.

SLC219 - Rheoliadau Cyfraniadau Ardrethu Annomestig (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2008

Y weithdrefn negyddol. Fe'u gwnaed ar 10 Tachwedd 2008. Fe'u gosodwyd ar 12 Tachwedd 2008. Yn dod i rym ar 31 Rhagfyr 2008.

### Eitemau eraill o fusnes

### Darpariaethau pwerau dirprwyedig "Mesur Arfaethedig ynghylch Llywodraeth Leol (Cymru) 200-": Trafodaeth gyda Dr Brian Gibbons AC, y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol

Fel rhan o'r gwaith craffu ar Fesur Arfaethedig ynghylch Llywodraeth Leol (Cymru) 200- o dan Reol Sefydlog 15.6 (ii) ("pa mor briodol yw darpariaethau mewn Mesurau Cynulliad arfaethedig... sy'n rhoi pwerau i wneud is-ddeddfwriaeth i Weinidogion Cymru..."), clywodd yr Aelodau dystiolaeth gan Dr Brian Gibbons AC, y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol.

Cytunodd y pwyllgor i ddrafftio adroddiad ar ba mor briodol yw darpariaethau is-ddeddfwriaeth y Mesur arfaethedig.

**Dr Dai Lloyd AC**
**Cadeirydd y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth**
**25 Tachwedd 2008**